



Prifysgol Cymru
University of Wales

CYNLLUN IAITH GYMRAEG DIWYGIEDIG 2014

PARATOWYD DAN

DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

Manylion Statws Dogfen

Teitl	Cynllun Iaith Gymraeg 2014
Statws	Cymeradwywyd
Fersiwn	4
Dosbarthiad	Anghyfyngedig
Dyddiad Awdurdodedig	15 Gorfennaff 2014
Awduron	Cyllid ac Adnoddau
Dyddiad Gweithredu	16 Tachwedd 2000
Dyddiad Adolygu	2016

Derbyniodd fersiwn gwreiddiol Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru gymeradwyaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14 (1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg ar 27 Gorffennaf 2005. Cymeradwywyd y Cynllun diwygiedig hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 28 Awst 2014 .

Mae Prifysgol Cymru'n falch i gyflwyno ei Chynllun Iaith Gymraeg diwygiedig.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Saesneg a'r Gymraeg ar sail gyfartal wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Prifysgol Cymru yn gweithredu'r egwyddor honno pan fydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu datblygu gwasanaethau'r Brifysgol a'u galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau i'r boblogaeth sy'n siarad Gymraeg yn unol ag uchelgais lleol a chenedlaethol dros y blynyddoedd i ddod. Mae'n ymgorffori ymrwymiad y Brifysgol i fod yn deg, yn uchelgeisiol, canolbwyntio ar y cwsmer ac yn effeithlon.

Rydym yn benderfynol o adeiladu a datblygu cyfleoedd gwell i bobl Cymru gyfathrebu gyda'r Brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn hyderus y byddwn yn gwella ein gwasanaethau'n sylweddol yn ystod oes y Cynllun hwn a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein busnes o ddydd i ddydd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda phobl Cymru, i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod modd iddi ffynnu.

Yr Athro Medwin Hughes

Is-Ganghellor Prifysgol Cymru

1.	<u>Cyflwyniad</u>	5
	<u>1.1 Rôl a Strwythur</u>	5
	<u>1.2 Y Brifysgol a'r Iaith Gymraeg</u>	6
	<u>1.3 Amcanion</u>	6
2	<u>Cynllunio a Darparu Gwasanaeth</u>	7
	<u>2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd</u>	7
	<u>2.2 Darparu Gwasanaeth</u>	7
3	<u>Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg</u>	7
	<u>3.1 Gohebiaeth</u>	7
	<u>3.2 Cyfathrebu ar y Ffôn</u>	8
	3.3 Gwefan	8
	<u>3.4 Cyfarfodydd</u>	8
	<u>3.4.1 Cyfarfodydd Mewnol</u>	8
	<u>3.4.2 Cyfarfodydd Cyhoeddus</u>	8
	<u>3.4.3 Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb</u>	8
	<u>3.5 Caffael</u>	8
	<u>3.6 Gwasg Prifysgol Cymru</u>	10
	<u>3.7 Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd</u>	10
4	<u>Hunaniaeth Gorfforaethol</u>	9
	<u>4.1 Cyffredinol</u>	9
	<u>4.2 Ffurflenni</u>	10
	<u>4.3 Arwyddion</u>	10
	<u>4.4 Cyfryngau</u>	10
	<u>4.5 Ymgynghori</u>	10
	<u>4.6 Hysbysiadau Cyhoeddus a Swyddogol</u>	11
	<u>4.7 Hysbysebion Recriwtio</u>	11
5	<u>Gweithrediad, Monitro a Rheolaeth</u>	11
	<u>5.1 Staffio</u>	11
	<u>5.2 Hyfforddiant</u>	12
	<u>5.2.1 Hyfforddiant mewn Sgiliau Iaith Gymraeg</u>	12
	<u>5.2.2 Datblygiad Staff trwy gyfrwng y Gymraeg</u>	12
	<u>5.3 Gweinyddu'r Cynllun</u>	12
	<u>5.4 Cwynion</u>	12
	<u>5.5 Adborth gan Gwsmeriaid</u>	13
	<u>5.6 Monitro'r Cynllun</u>	13
	<u>5.7 Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad</u>	13
	<u>5.7 Hysbysu'r Cynllun</u>	14
	<u>5.8 Gweithrediad</u>	14
	<u>5.9 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol</u>	14
	<u>5.10 Cyfrifoldeb Statudol</u>	14

1. Cyflwyniad

Dan Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i Brifysgol Cymru, fel corff a gyllidir yn gyhoeddus, i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg. Man cychwyn yr holl gynlluniau o'r fath yw'r egwyddor o gydraddoldeb sydd wedi'i hymwreiddio yn y Ddeddf.

Mae Prifysgol Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor hon yn ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau i'n staff, ein myfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig y Brifysgol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 27 Gorffennaf 2005. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion y mesurau y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'w gweithredu er mwyn gwireddu'r gofynion yn Neddf yr Iaith Gymraeg, "cyhyd ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, y dylid dilyn yr egwyddor wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal".

1.1 Rôl a Strwythur

Sefydlwyd Prifysgol Cymru drwy Siarter Brenhinol ym 1893, ac mae wedi chwarae rhan sylweddol yn natblygiad addysg uwch yng Nghymru a, gan rychwantu tair canrif, mae'r Brifysgol wedi cael ei hystyried yn sefydliad cenedlaethol sydd wedi bod wrth galon bywyd addysgol a diwylliannol Cymru.

Dros y blynyddoedd, mae cyfeiriad strategol y Brifysgol wedi newid nifer o weithiau i ymateb i anghenion myfyrwyr, yng Nghymru a thu hwnt. Er ei bod yn sefydliad nad yw'n addysgu (ac nad yw'n cofrestru myfyrwyr yn ei henw ei hun), Prifysgol Cymru oedd un o gyrrff dyfarnu graddau mwyaf y DU - gyda thros 30,000 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar raglenni a ddilyswyd gan y Brifysgol mewn 130 o ganolfannau yn y DU a thramor. Heddiw, mae'r Brifysgol yn parhau i achredu graddau a dyfarniadau ar ran nifer o sefydliadau academiaidd yng Nghymru a dilysu rhaglenni astudio a gyflwynir gan ganolfannau partner yn y DU a thramor, ac mae'n parhau â hanes balch y Brifysgol o gefnogi amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol a hanesyddol pwysig.

Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y Brifysgol y byddai'n uno â Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, dan Siarter Brenhinol 1828 Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Caiff yr uno hwn ei gwblhau pan fydd y rhaglenni astudio cyfredol ar gyfer dyfarniad Prifysgol Cymru wedi'u cwblhau.

Yn 2012, cyhoeddodd y Brifysgol ei bod yn creu Adduned Cymru i sicrhau y bydd yr asedau diwylliannol a threftadaeth pwysig y mae'n gofalu amdanynt yn parhau er budd Cymru gyfan. Mae Adduned Cymru yn cynnwys cyfres o drefniadau strategol fydd yn arwain at sefydlu nifer o gyrrff elusennol i ddiogelu'r gwasanaethau traddodiadol a gysylltir â'r Brifysgol, fel canolfan ymchwil uchel ei bri'r Brifysgol, y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd; Gwasg Prifysgol Cymru, gwasg ddwyieithog Gymraeg/Saesneg sy'n cyfrannu'n helaeth i faes cyhoeddi testunau academiaidd Cymreig a chyfrolau o ddiddordeb i Gymru; a Gregynog, canolfan astudio a chynadledda'r Brifysgol..

Mae Cyngor y Brifysgol (ei chorff llywodraethu) yn cynnwys 19 o aelodau, gyda'r mwyafrif yn annibynnol o'r Brifysgol, gydag arbenigedd o feysydd busnes, cyllid, y gyfraith, cysylltiadau cyhoeddus, adnoddau dynol a'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn ogystal ceir aelodau sydd wedi'u penodi i gynrychioli'r Bwrdd Academiaidd a staff a myfyrwyr y Brifysgol.

Mae uwch swyddogion y Cyngor (y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Is-Ganghellor) a mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn siarad Cymraeg a chynhelir holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog. Caiff cofnodion y Cyngor eu llunio'n Gymraeg a Saesneg. Caiff cydymffurfiaeth â Pholisi'r Brifysgol (gan gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg) ei goruchwyllo gan Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Cyngor, ac mae chwech o wyth aelod y Pwyllgor yn siarad Cymraeg. Caiff Aelodau annibynnol y Cyngor eu penodi drwy broses ymgeisio a chyfweld agored, dan oruchwylloeth y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb o gynnal cydbwysedd o sgiliau o fewn yr aelodaeth (gan gynnwys sgiliau iaith).

Mae gweithrediad effeithlon ac effeithiol y Brifysgol, ei staff, ei hadnoddau a'i gweithrediadau yn gyfrifoldeb uwch reolwyr a rheolwyr canol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel tîm rheoli dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor. Mae'r grŵp hwn yn rhoi'r polisiau a gymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol ar waith ac yn llunio gweithdrefnau ac arweiniad sydd ar gael (yn ddwyieithog Cymraeg-Saesneg) i'r holl staff.

1.2 Y Brifysgol a'r Gymraeg

Mae Prifysgol Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Saesneg a'r Gymraeg ar sail gyfartal wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod:

- y gall ei chwsmeriaid fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith ffafriedig
- bod eu galluogi i ddefnyddio'u hiaith ffafriedig yn fater o ofal cwsmer da ac nid yn oddefiad ac
- y gallai gwrthod iddynt yr hawl i ddefnyddio'u hiaith ffafriedig olygu gwir anfantais i bobl.

Bydd staff, myfyrwyr a'r cyhoedd yng Nghymru'n cael y cyfle i ddewis pa iaith yr hoffent ei defnyddio wrth ddelio gyda'r Brifysgol. Caiff unrhyw un sy'n cysylltu â'r Brifysgol ar y ffôn neu drwy ymweld ag unrhyw rai o'n derbynfydd ei gyfarch yn ddwyieithog. Caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu cynnig ar y wefan a chaiff dewis iaith gwe unigolion ei dethol ar yr hafan. Caiff unrhyw negeseuon ebost Cymraeg eu trin gan siaradwr Cymraeg neu caiff y negeseuon eu cyfieithu i'r Saesneg gan gyfieithu'r ymateb Saesneg yn ôl i'r Gymraeg. Mae papur swyddogol y Brifysgol yn cynnwys y datganiad 'mae croeso i chi ohebu â'r Brifysgol yn Gymraeg neu'n Saesneg'.

Mae'r Cynllun hwn yn fwy na datganiad o bolisi corfforaethol; mae'n strategaeth weithredol ac addysgiadol ar gyfer y defnydd o'r iaith Gymraeg yng ngwasanaethau cyhoeddus y Brifysgol.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel bydd Prifysgol Cymru yn:

- rhoi pobl Cymru wrth galon popeth a wna
- hybu cydraddoldeb a thrin pawb yn deg a chyda pharch
- rhoi dewis ynglŷn â sut i gysylltu
- cyfeillgar, hawdd mynd ati a phroffesiynol
- creu awyrgylch groesawgar yn ei hadeiladau cyhoeddus
- ateb ymholiadau ar y cyswllt cyntaf ble bynnag y bo hynny'n bosib
- darparu gwybodaeth syml am ei gwasanaethau
- delio gydag ymholiadau a chwynion yn ofalus, yn gyflym ac yn agored a
- datblygu a chefnogi ei staff i gyflawni'r ymrwymadau hyn.

1.3 Amcanion

Amcanion strategol Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru yw:

- sicrhau bod amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys ar bob lefel pan fydd yn gweithredu unrhyw bolisiau a gweithredu unrhyw wasanaethau
- cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio yn eu trafodion gyda'r Brifysgol
- annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol a'r ffaith bod yr iaith ar gael i'w defnyddio a
- monitro'r Cynllun i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Bydd y rhain yn cael eu cyflawni a'u hyrwyddo trwy amryw o dargedau gweithredol allweddol a fydd yn ffurfio sail ein hymrwymiad i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Bydd Prifysgol Cymru, pan fydd yn ymdrin â'r cyhoedd, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, gyda'r ddwy iaith yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd.

Bydd y Brifysgol yn helpu i gefnogi'r Gymraeg trwy:-

- ymarfer Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol sy'n nodi sut y bydd yn gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg i gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac
- ymarfer Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg y Brifysgol sy'n dangos sut y bydd yn sicrhau bod ganddi weithlu dwyieithog i gyflawni amcanion ei Chynllun Iaith Gymraeg.

2. Cynllunio a Darparu Gwasanaeth

2.1 Polisiau a Mentrau Newydd

Bydd y Brifysgol yn ystyried yr Iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i gwaith, ac yn asesu effaith ieithyddol ei strategaethau, polisiau a gweithdrefnau.

Bydd polisiau a mentrau newydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg lle bo'n bosibl a bydd yn symud y Brifysgol yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle. Caiff polisi a gweithdrefnau'r Brifysgol eu cydlynu gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth cyn eu cyhoeddi ar y fewnryd a'r rhyngryd, er mwyn sicrhau bod holl agweddau cydymffurfiaeth yn cael eu parchu.

Pan fydd y Brifysgol yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflenwi polisiau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, fe wnaiff hynny mewn modd sy'n gyson gyda'r Cynllun hwn.

Bydd y Brifysgol yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag unrhyw newidiadau neu gynigion a allai effeithio ar y cynllun, ac ni fydd yn newid y cynllun heb gytundeb y Comisiynydd o flaen llaw.

2.2 Darparu Gwasanaeth

Lle bo gwasanaethau wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru, bydd y gwasanaethau hynny ar gael yn ddwyieithog. Bydd gwasanaethau ledled y DU ac yn rhyngwladol ar gael yn Saesneg yn unig.

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal ac yn cael eu darparu ar yr un pryd. Mae'r Brifysgol yn ymrwmo i fonitro gweithrediad a chydymffurfiaeth â'r Cynllun yn flynyddol.

3. Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Bydd y Brifysgol yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg wrth ddelio gydag aelodau o'r cyhoedd ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.

3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae croeso i'r cyhoedd ddelio â Phrifysgol Cymru yn ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd cylchlythyrau neu lythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd llythyrau a dderbynnir gan y Brifysgol yn cael eu cydnabod a'u hateb yn yr un iaith ag y'i derbyniwyd ac o fewn yr un cyfyngiadau amser. Ni fydd gohebiaeth Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.

Bydd gohebiaeth electronig yn cael ei thrin yn yr un modd â gohebiaeth ysgrifenedig, gyda manylion staff, teitlau swydd a negeseuon allan o'r swyddfa'n cael eu nodi'n ddwyieithog.

Os bydd Prifysgol Cymru'n dechrau gohebiaeth gyda pherson neu sefydliad y mae'n hysbys mai'r Gymraeg yw ei iaith ffafriedig, byd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai bod cais wedi dod i law am ohebiaeth ddwyieithog. Os nad yw'r dewis o iaith yn wybyddus, bydd y Brifysgol yn dechrau gohebiaeth yn ddwyieithog. Yn ogystal os oes cyfarfod wyneb yn wyneb neu alwad ffôn wedi'i wneud yn Gymraeg, bydd cyswllt yn dilyn hynny yn Gymraeg yn unig.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu gwasanaeth cyfieithu llawn i'w holl gyflogeion sy'n darparu cyfieithu mewnol i amrywiol gyfryngau ac sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn ar gyfer yr holl ddiwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i staff drwy safle mewnwyd y Brifysgol, gydag arweiniad llawn yn cael ei ddarparu. Caiff y gwasanaethau cyfieithu eu monitro drwy'r Adran Cyllid ac Adnoddau, ac os/pan fydd angen trefnir fod gwaith yn cael ei wneud yn allanol er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion cyfieithu yn cael eu trin yn brydlon.

3.2 Cyfathrebu ar y Ffôn

Mae croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio gyda Phrifysgol Cymru ar y ffôn.

Mae pob derbynfa sy'n delio gyda galwyr o Gymru yn gweithredu gwasanaeth ateb 24 awr sy'n cyfarch y galwr yn ddwyieithog, ac yn rhoi cyfle i'r galwr adael neges yn ei iaith ffafriedig.

Bydd negeseuon ar beiriannau ateb llinellau ffôn unigol hefyd yn ddwyieithog gyda chymorth ar gael i aelodau o staff oddi wrth yr Adran Cyllid ac Adnoddau.

Mae staff yn cael eu hannog i ateb galwadau allanol gyda chyfarchiad dwyieithog i hyrwyddo dewis iaith. Bydd ffurf a chynnwys y cyfarchiad dwyieithog yn dibynnu ar lefel cymhwyster y cyflogai yn yr iaith.

Caiff galwadau ffôn o'r tu allan i'r Brifysgol eu hateb â'r geiriau 'Prifysgol Cymru/University of Wales', neu ffurf ddwyieithog enw'r adran briodol. Bydd staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhoi'r cyfarchiad priodol o flaen hyn yn Gymraeg (bore/prynhawn da) i nodi eu hyfedredd ieithyddol.

Pan gaiff galwad ei hateb gan aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg, caiff dymuniad y galwr i ymdrin â'r Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ei barchu drwy gynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg, neu drwy drefnu i siaradwr Cymraeg ddychwelyd yr alwad cyn gynted â phosibl. Os nad yw hyn yn bosib neu'n ymarferol, bydd y galwr yn cael cynnig naill ai parhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu at y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi llunio ac yn cynnal cyfeiriadur o aelodau o staff sy'n gallu ymdrin â'r cyhoedd yn Gymraeg, a gyhoeddir ar fewnwyd y staff er hwylustod mynediad ynghyd â Llawlyfr o'r enw "Ateb y ffôn yn ddwyieithog" a ddarperir er hwylustod i'r holl staff.

3.3 Gwefan

Mae Prifysgol Cymru'n cynnig gwefan ddwyieithog lle gall y defnyddiwr ddewis yr iaith i'w defnyddio wrth ymweld â'r safle am y tro cyntaf. Bydd ymweliadau mynych â'r wefan yn defnyddio'r cwci a gasglwyd ac yn cyfeirio'r defnyddiwr at ei ddewis gwreiddiol, ac ar unrhyw adeg gall y defnyddiwr newid o Gymraeg i Saesneg gyda'r cynnwys yn cael ei atgynhyrchu yn ei ddewis iaith.

Bydd yr holl ddefnydd a gynhyrchir gan Brifysgol Cymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ond pan fydd dogfennau trydydd parti yn cael eu cyrchu, ni fydd hyn bob amser yn bosibl. Mewn achosion o'r fath bydd y Brifysgol yn annog y trydydd parti'n hynny i gynhyrchu'r ddogfen yn ddwyieithog.

3.4 Cyfarfodydd

3.4.1 Cyfarfodydd Mewnol

Darperir adnoddau cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Cyngor y Brifysgol, y Ganolfan Uwchefrydiau, ac unrhyw gyfarfodydd eraill yn ôl y galw. Mae hysbysiadau rhagarweiniol ac agendâu ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor swyddogol yn cael eu cynhyrchu mewn fformat dwyieithog.

3.4.2 Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus

Bydd adnoddau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw gyfarfodydd a digwyddiadau o'r fath, gyda digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol. Bydd y digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo a'u hysbysebu'n ddwyieithog ac yn achos yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd cyfryngau hysbysebu'n amlygu eitemau fel sgysiau a darlithoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Caiff y Dathliadau Graddio blynyddol i fyfyrwyr Rhyngwladol eu hyrwyddo'n ddwyieithog, drwy gyhoeddi rhaglenni, posteri, cyflwyniad y seremoni a'r areithiau. Cynhelir yr holl brosesau gweinyddol eraill drwy gyfrwng y Saesneg.

3.4.3 Cyfarfodydd Wyneb-yn-Wyneb

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd gydag unigolion a grwpiau wneud hynny, os oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Mewn manau gwaith lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd camau'n cael eu cymryd i wella trefniadau i ddefnyddio staff dwyieithog sy'n gallu ymateb i geisiadau am gyfarfodydd yn Gymraeg.

Os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael caiff dewis ei gynnig: naill ai (i) cynnal y cyfarfod yn Saesneg, (ii) aildrefnu cyfarfod pan fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael neu (iii) cyflwyno eu hymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig.

3.5 Caffael

Bydd yr holl wasanaethau a ddarperir i Brifysgol Cymru'n cael eu cyflenwi'n unol â darpariaethau'r Cynllun Iaith Gymraeg. Caiff cydymffurfiaeth â'r Cynllun ei fonitro'n llawn gan y Brifysgol, fel rhan o'r broses monitro contract cyffredinol.

3.6 Gwasg Prifysgol Cymru

Ers cael ei sefydlu ym 1922 mae Gwasg Prifysgol Cymru wedi cefnogi a lledaenu ysgolheictod o Gymru ac am Gymru i gynulleidfa fyd-eang, drwy gyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Mae Gwasg PC ar hyn o bryd yn cyhoeddi tua 70 o gyfrolau a chylchgronau newydd y flwyddyn, yn bennaf ym meysydd astudiaethau Ewropeaidd, athroniaeth, llenyddiaeth, hanes, Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd. Caiff llyfrau o ddi-ddordeb cyffredinol am Gymru hefyd eu cynhyrchu fel rhan o genhadaeth y Wasg i ledaenu ymchwil a'i wneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach, gan gefnogi cais gydol oes am wybodaeth a rhagoriaeth academiaidd. Mae gan Wasg PC swyddogaeth bwysig yn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant, hanes, etifeddiaeth, iaith a gwleidyddiaeth unigryw Cymru.

Mae Gwasg PC mewn sefyllfa unigryw fel unig wasg academiaidd ddielw Cymru ac mae'r gweithrediadau a'r gwasanaethau mae'n eu darparu yn gwbl ddwyieithog gan gynnwys gwefan newydd Gwasg PC (<http://www.uwp.co.uk>). Dan Adduned Cymru bydd Prifysgol Cymru'n sefydlu Gwasg PC yn gwmni elusennol, i ddiogelu ac ehangu gwaith y wasg, gan gynnwys ehangu ei chylch gwaith addysgol a chofleidio'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyhoeddi digidol/ar lein ac electronig.

3.7 Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd

Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yw sefydliad ymchwil penodol Prifysgol Cymru, sydd wedi'i lleoli gerllaw Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac sy'n cynnal prosiectau ymchwil cydweithredol i iaith, llenyddiaeth a hanes Cymru a'r cenhedloedd Celtaidd eraill (Iwerddon, yr Alban, Llydaw, Cernyw ac Ynys Manaw) yn ogystal ag ardaloedd yn Ewrop Gyfandirol a chanol Asia Leiaf mewn cyfnodau hynafol).

Mae gweithrediad a gwasanaethau'r Ganolfan Uwchefrydiau yn gwbl ddwyieithog, ac mae dros 95% o staff y Ganolfan yn siarad Cymraeg. Sefydlwyd Geiriadur Prifysgol Cymru ym 1922 a chynnal ac adnewyddu'r Geiriadur yw prosiect ymchwil hiraf y Ganolfan Uwchefrydiau. Dan Adduned Cymru bydd Prifysgol Cymru'n ailsefydlu'r Ganolfan Uwchefrydiau yn gwmni elusennol fel rhan o ymrwymiad tymor hir y Brifysgol i ddatblygu iaith a diwylliant Cymru a rhagoriaeth academiaidd gysylltiedig.

4. Hunaniaeth Gorfforaethol

4.1 Cyffredinol

I gynnal ei busnes yng Nghymru, mae Prifysgol Cymru wedi mabwysiadu delwedd a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn enw, cyfeiriad a gwybodaeth ffeithiol safonol corfforaethol ar bapur ysgrifennu (yn cynnwys papurau â phennawd, cardiau busnes, bathodynau adnabod a nwyddau a defnyddiau eraill). Mae maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn parchu'r egwyddor o driniaeth gyfartal.

Ble mae Prifysgol Cymru yn ymgymryd ag unrhyw agwedd o farchnata, hysbysebu, hyrwyddo neu gyhoeddusrwydd o'i swyddogaethau, gwasanaethau a gweithgareddau i'r cyhoedd, mae'n ymrwymo i wneud hynny'n ddwyieithog.

Bydd eitemau fel pamffledi, llyfrynau, tystysgrifau, posteri a ffurflenni (yn cynnwys nodiadau eglurhaol a chyfarwyddiadau) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Tybir bod unrhyw beth a gynhrychir gan Brifysgol Cymru sydd wedi ei anelu at bobl Cymru yn dod o dan y drefn hon.

Bwriad yr adran ddilynol yw cynghori staff ynglŷn â sut i gynhyrchu dogfennau dwyieithog mewn fformat priodol. Bydd dogfennau mewn tri chategori - y rhai y dylid eu cynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, y rhai y dylid cynhyrchu fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân, a'r rhai y dylid eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig.

Categori A – cwbl ddwyieithog

Mae Prifysgol Cymru'n cynhyrchu amryw o ddogfennau proffil uchel yn ddwyieithog gyda'r ieithoedd ochr yn ochr. Bydd pob poster a gynhrychir, waeth beth yw'r gynulleidfa darged, yn gwbl ddwyieithog. Mae unrhyw eitemau ar gyfer y wasg ee hysbysebion a hysbysiadau, wedi eu cynllunio gyda'r ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd.

Mae cardiau busnes fel arfer yn gwbl ddwyieithog, ar wahân i'r rhai a gynhrychir ar gyfer staff sy'n ymweld â gwledydd tramor.

Mae papur â phennawd y Brifysgol yn cynnwys y datganiad 'Mae croeso i chi ohebu â'r Brifysgol yn y Gymraeg neu'r Saesneg / You are welcome to correspond with the University in either Welsh or English.'

Categori B – fersiynau Gymraeg a Saesneg ar wahân

Mae'r mwyafrif o gyhoeddiadau electronig Prifysgol Cymru wedi eu rhannu yn Gymraeg a Saesneg er mwyn hwyluso cyhoeddi ar y wefan. Gall unigolion ddewis eu hiaith.

Mewn rhai achosion ble mae dogfennau neu ffurflenni yn drwchus iawn (ee gyda chyfrif uchel iawn o dudalennau) neu'n gymhleth iawn, bydd fersiynau ar wahân yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac o'r un ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn yr un mor amlwg o ran hyrwyddiad a dangosiad; a byddant yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd trwy'r post, neu'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

Rhaid i bob dogfen ar wahân gynnwys un o'r datganiadau canlynol i dynnu sylw at y ffaith eu bod ar gael yn yr iaith arall.

Ar gyfer y fersiwn Saesneg:

This publication is available in Welsh, on request.
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg, ar gais.

Ar gyfer y fersiwn Gymraeg

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg, ar gais.
This publication is available in English, on request.

Categori C – Saesneg yn unig

Mae'r categori hwn yn cynnwys mwy neu lai y cyfan o waith gweinyddol / academiaidd y Brifysgol. Mae 76% o fyfyrwyr sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol Cymru wedi'u lleoli mewn canolfannau cydweithredol mewn 26 o wledydd o gwmpas y byd. Mae'r holl drafodion gyda myfyrwyr rhyngwladol (o ran derbyn, cyrsiau ac arholiadau) yn Saesneg fel yr iaith ryngwladol a ddefnyddir yn fwyaf eang. Yn 2012 cyhoeddodd Prifysgol Cymru y byddai'n tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau cydweithredol ac mae strategaeth ymadael yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd. Rydym ni'n croesawu trafodion yn y Gymraeg fel dewis gan fyfyrwyr unigol yn y DU a thramor.

4.2 Ffurflenni

Mae pob ffurflen fewnol ac allanol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog i sicrhau cydraddoldeb i'r iaith Gymraeg. Mae Prifysgol Cymru'n ymrwmo i adolygu pob ffurflen fel rhan o'r broses monitro i sicrhau cynnal iaith addas o ran terminoleg gyson a Chymraeg bob dydd.

Bydd ffurflenni sydd wedi eu hanelu at fyfyrwyr rhyngwladol a chanolfannau cydweithredol tramor a chyn-fyfyrwyr rhyngwladol, yn eithriedig.

4.3 Arwyddion

Bydd pob arwydd newydd ac arwydd amnewid gyda gwybodaeth i'r cyhoedd ac arwyddion mewnol y mae Prifysgol Cymru'n gyfrifol amdanynt yn ddwyieithog neu, ble y darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn derbyn triniaeth gyfartal.

4.4 Cyfryngau

Bydd datganiadau i'r wasg Prifysgol Cymru yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith Saesneg i'r cyfryngau iaith Saesneg ac yn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg.

Dros oes y Cynllun hwn, bydd Prifysgol Cymru'n sicrhau pan fydd yn cynhyrchu cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, ymgyrchoedd marchnata a pheirianwaith ymateb, y bydd y defnydd arddangos ac unrhyw ddefnydd ategol yn gwbl ddwyieithog.

Bydd ymgyrchoedd hysbysebu neu hyrwyddo a gynhyrchir gan Brifysgol Cymru trwy gyfrwng unrhyw gyfryngau cyhoeddus ac wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.5 Ymgynghori

Pan fydd Prifysgol Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y Cynllun hwn o ran:

- cyhoeddi, hysbysebu, marchnata, cyhoeddusrwydd, arwyddion a datganiadau i'r wasg
- hysbysiadau cyhoeddus a swyddogol a
- cyfarfodydd a gwrandawladau cyhoeddus.

- darparu deunyddiau cysylltiedig megis arolygon, holiaduron ac ati

4.6 Hysbysiadau Cyhoeddus a Swyddogol

Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau newydd, cyfnodolion a chylchgronau o fewn Cymru am resymau statudol ac anstatudol yn ddwyieithog.

4.7 Hysbysebion Recriwtio

Mae hysbysebion recriwtio staff a disgrifiadau swyddi a gyhoeddir yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, yn ymddangos gyda'i gilydd a gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran amlygrwydd.

Fe all hysbysebion yn y wasg Gymraeg ymddangos yn Gymraeg yn unig ble'r ystyrir y gallu i siarad Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd dan sylw.

Fe all hysbysebion yn y wasg Saesneg y tu allan i Gymru, am swyddi ble nad yw'r gallu i siarad Gymraeg yn hanfodol, ymddangos yn Saesneg yn unig.

Bydd recriwtio yn cael ei wneud ar sail haeddiant ac yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i gyfle cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth gyfredol.

5. Gweithrediad, Monitro a Rheolaeth

5.1 Staffio

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo, yn ystod cyfnod trawsnewidiol yr uno, i weithredu ac ystyried gofynion y cynllun a sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod hwn yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaethau Gymraeg neu ddwyieithog a gynigir i'r cyhoedd. Bydd yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol o ansawdd da i siaradwyr Gymraeg.

Rhaid ystyried y ffactorau canlynol wrth asesu'r anghenion iaith Gymraeg ar gyfer swyddi:

- faint, a pha mor aml, fydd deiliad swydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd
- gallu cyfredol yr uned/tîm/swyddfa i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen
- yr wybodaeth arbenigol a'r hyfedredd iaith angenrheidiol ar gyfer y swydd a
- natur ieithyddol ardal leol benodol.

Mae Prifysgol Cymru yn archwilio ei strwythurau staffio i ganfod swyddi ble mae sgiliau iaith Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol a bydd yn llunio disgrifiadau swyddi a chynlluniau gwasanaeth yn unol â hynny. Ble'r ystyrir bod gallu ieithyddol Gymraeg yn hanfodol neu'n ystyriaeth bwysig, caiff hyn ei ddatgan yn yr hysbysebion swyddi a bydd hysbysebu unieithog neu ddwyieithog wedi ei dargedu yn cael ei ystyried.

Mewn amgylchiadau ble mae'n anodd penodi staff dwyieithog addas i swydd a ble mae hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol, ystyrir yr opsiynau canlynol er mwyn cwrdd ag anghenion y gwasanaeth a'r adnoddau sydd ar gael:

- ail hysbysebu'r swydd (mewn rhai achosion caiff y swydd ei hail hysbysebu gyda'r un gofynion ond gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ambell waith bydd y gofyniad gallu siarad Gymraeg yn cael ei newid o 'hanfodol' i 'ystyriaeth bwysig')

- ail drefnu'r gwasanaeth neu ganfod trefniadau amgen trwy ddefnyddio sgiliau ieithyddol staff sydd eisoes yn gweithio i'r Brifysgol mewn meysydd gwasanaeth eraill
- penodi rhywun dros dro nes y gellir dod o hyd i siaradwr Cymraeg ar gyfer y swydd a
- penodi gydag addewid bod y sawl a benodir yn dysgu Cymraeg i safon benodedig ac o fewn amser penodol gyda chefnogaeth Prifysgol Cymru.

Gellir diffinio'r angen am sgiliau yn y Gymraeg fel cydran o weithle neu dîm, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â swydd arbennig, ac ni ofynnir i unrhyw aelod o staff newid eu swydd neu leoliad ar sail eu gallu ieithyddol. Caiff pob penodiad ei wneud ar sail haeddiant ac yn unol ag ymrwymiad Prifysgol Cymru i gyfleoedd cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth gyfredol.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr neu Bennaeth y Gwasanaeth ynghyd â Phennaeth Adnoddau Dynol fydd asesu anghenion ieithyddol swyddi i sicrhau y gall Prifysgol Cymru ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun hwn.

Bydd pob aelod newydd o staff a benodir, fel rhan o'r broses ymsefydlu, yn derbyn trosolwg o Fesur yr Iaith Gymraeg ac yn gallu cysylltu â safle mewnwyd y staff lle bydd gweithdrefnau a nodiadau canllaw megis ateb y ffôn yn ddwyieithog ar gael. Caiff ymwybyddiaeth staff a deunydd a dolenni eraill eu gosod ar fewnwyd y staff, a'u dwyn i sylw staff yn rheolaidd drwy ddiweddariad cyfathrebu a chylchgrawn Campus

5.2 Hyfforddiant

5.2.1 Hyfforddiant mewn Sgiliau yn y Gymraeg

Mae Prifysgol Cymru'n cydnabod bod y gallai galw am wasanaeth yn y Gymraeg gynyddu trwy gydol oes y Cynllun hwn. Er mwyn cwrdd â'r anghenion sy'n codi yn sgil hyn, bydd yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

Anogir staff i gymryd rhan yn y cynlluniau hyfforddi ar sail wirfoddol. Caiff ffioedd eu talu gan y Brifysgol a rhoddir amser o'r gwaith i staff yn ystod y diwrnod gwaith i'w galluogi i gyfranogi. Mae nifer o ddogfennau ar gael ar y fewnwyd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac mae'r Brifysgol yn cefnogi staff drwy ddarparu geiriaduron Cymraeg a defnydd o CySill, ac ati pan ofynnir am hyn gan staff.

5.2.2 Datblygiad Staff trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Adran Adnoddau Dynol y Brifysgol yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trefnu i ddarparu hyfforddiant priodol.

5.3 Gweinyddu'r Cynllun

Bydd yn ofynnol i Brifysgol Cymru gymeradwyo'r Cynllun a chefnogi ei weithrediad.

Yr Is-Ganghellor fydd yn atebol yn gyffredinol am y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd gweithrediad y Cynllun yn cael ei gydlynu gan yr Uwch Grŵp Rheoli ac yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth.

Bydd staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldeb mewn perthynas â gweithrediad y Cynllun a bydd yr holl staff yn derbyn cyngor ac arweiniad ynglŷn â hyn ar fewnwyd y staff a chyhoeddiadau chwarterol y staff. Rheolwyr Llinell fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd.

Bydd Prifysgol Cymru yn sicrhau bod gan gyfieithwyr mewnol ac allanol gymwysterau priodol (fel arfer yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru) er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Mae gan Brifysgol Cymru wasanaeth cyfieithu sydd ar gael i staff yn syth ar y fewnwyd a cheir canllawiau ar sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar fewnwyd y Brifysgol.

Bydd yn ofynnol i gontractwyr gydweithio gyda thelerau Cynllun y Brifysgol.

Darperir arweiniad ysgrifenedig i staff ar weithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol ar ffurf llawlyfr i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Cynllun.

5.4 Cwynion

Mae Prifysgol Cymru'n cydnabod y gall pethau fynd o le weithiau, ac felly mae ei gweithdrefn cwynion wedi ei chynllunio i sicrhau fod popeth posib yn cael ei wneud i ddatrys unrhyw broblem yn gyflym ac effeithlon, ble bo hynny'n bosib. Os oes unrhyw un o'r farn nad yw'r Brifysgol yn gweithredu'r addewidion a wneir yn y Cynllun hwn, dylai dynnu sylw'r Brifysgol at y mater drwy'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth neu gysylltu â compliance@cymru.ac.uk.

Gellir diffinio cwyn fel sefyllfa ble mae aelod o'r cyhoedd, neu grŵp, yn anfodlon â safon gwasanaeth, neu weithrediad neu ddiffyg gweithrediad gan Brifysgol Cymru neu aelod o staff. Yng nghyd-destun y Cynllun Iaith Gymraeg, gellir diffinio cwynion ymhellach mewn dwy ffordd:

- cwynion yn Gymraeg ynglŷn â maes gwasanaeth penodol a;
- cwynion yn y naill iaith neu'r llall ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg

Ymdrinnir â phob cwyn gan y cyhoedd yn unol â Gweithdrefn Cwynion Prifysgol Cymru. Dylai unrhyw un sydd â chwynion neu awgrymiadau ynglŷn â'r gwasanaeth/darpariaeth yn yr iaith Gymraeg ysgrifennu at: y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS.

5.5 Adborth gan Gwsmeriaid

Gellir defnyddio gwefan y Brifysgol fel modd o fesur boddhad. Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau ar gyfrif ebost pwrpasol ar y wefan.

5.6 Monitro'r Cynllun

Bydd adroddiad monitro blynyddol Prifysgol Cymru Gomisiynydd y Gymraeg yn ceisio cyflawni'r amcanion canlynol:

- asesu a yw'r Brifysgol yn gwneud cynnydd yn perfformio yn erbyn yr amserlen a osodwyd yn unol â'r Cynllun
- mesur faint o'r gwasanaethau rheng flaen sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg
- mesur digonolrwydd ei sgiliau iaith trwy gymharu angen ag adnodd

Bydd y Brifysgol yn crynhoi ei chanfyddiadau ar ffurf naratif byr (gyda thystiolaeth) i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a bydd yn nodi unrhyw wendidau/risgiau sylfaenol, ac yn llunio cynllun gweithredu o fesurau cywiro, ynghyd ag amserlen. Bydd y Brifysgol hefyd yn tynnu sylw at gynydd, ymarfer da a lefelau cydymffurfiaeth.

5.7 Cyhoeddi Gwybodaeth Perfformiad

Bydd Prifysgol Cymru'n cynnwys gwybodaeth ar ei pherfformiad mewn perthynas â gweithrediad ei Chynllun yn yr adroddiad monitro blynyddol a bydd yn adolygu targedau yng ngoleuni newid mewn amgylchiadau ariannol, adnoddau a statudol. Os nad yw targedau yn cael eu cyrraedd bydd yr adroddiad yn egluro'r rheswm dros hyn a pha gamau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater.

5.8 Hysbysu'r Cynllun

Bydd Prifysgol Cymru'n defnyddio'r dulliau canlynol i hysbysu'r cyhoedd o'r Cynllun ac i hyrwyddo ei gwasanaethau yn y Gymraeg:

- cyhoeddi'r Cynllun ar wefan y Brifysgol
- dosbarthu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i staff
- sicrhau bod modd i asiantau a chontractwyr, sefydliadau ac unigolion â diddordeb gael copïau o'r Cynllun cymeradwy.

Bydd cyngor a chanllawiau ar weithrediad yr ymrwymadau hyn yn cael eu rhoi i staff, asiantau a chontractwyr.

Bydd Prifysgol Cymru yn datblygu rhaglen codi ymwybyddiaeth i'w staff ar ofynion y Cynllun..

5.9 Gweithrediad

Bydd gweithrediad y Cynllun yn cael ei fesur yn erbyn dyddiadau targed fel y'i ceir yng Ngweithrediad y Cynllun / y Cynllun Gweithredu (Atodiad).

5.10 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae Prifysgol Cymru yn cynhyrchu dogfennau Cymraeg yn unol â'r ymrwymadau a wneir yn y Cynllun hwn. Bydd gwybodaeth yn cynnwys copïau o gofnodion neu ganllawiau mewnol yn cael eu darparu yn yr iaith y'i hysgrifennwyd ynddi.

5.11 Cyfrifoldeb Statudol

Cyfrifoldeb statudol y Prif Weithredwr yw sicrhau bod Prifysgol Cymru yn ymddwyn mewn modd cyfreithlon ac nad yw'n gwneud unrhyw beth a all achosi camweinyddu neu anghyfiawnder i unrhyw unigolyn.

Atodiad A

Amserlen Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Prifysgol Cymru

Cyfarwyddiaeth	Gwasanaethau Corfforaethol	
Adran	Cydymffurfiaeth	
Carreg filltir	Cyfrifol	Dyddiad targed
Datblygu Polisi Iaith Gymraeg gyda gweithdrefnau atodol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth	parhaus
Gweithredu archwiliadau a monitro'r Gymraeg i ganfod meysydd o wendid/risg a chynnig argymhellion ar gyfer cydymffurfiaeth yn flynyddol. Archwilio / Monitro i ddelio â'r holl feysydd dan y cynllun a'r mesur newydd.	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth	Medi 2014
Adolygu'r holl bolisiau a gweithdrefnau cyfredol i sicrhau bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r Cynllun Iaith Gymraeg, a chynnwys dyddiadau adolygu ar yr holl bolisiau i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth	parhaus
Datblygu a gweithredu dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o hyfforddiant ymwybyddiaeth yn y gweithlu, mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg a chyfrifoldebau unigolion.	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth	Medi 2014
Datblygu gweithdrefn i fynd i'r afael â chwynion dan y Cynllun Iaith Gymraeg	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth	parhaus
Adran	Adnoddau Dynol	
Carreg filltir	Cyfrifol	Dyddiad targed
Cyflwyno matrices sgiliau ar gyfer holl swyddi'r brifysgol a sicrhau bod y rhain yn cael eu gwerthuso ddwywaith y flwyddyn, yn unol â	Pennaeth Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Cyfarwyddiaeth	Rhagfyr 2014 – dechrau

strwythurau staffio i ganfod swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.		2015
Rhoi mesurau amrywiol o Hyfforddiant yn y Gymraeg ar waith yn fewnol, ac yn allanol pan fydd cyllidebau'n caniatáu i sicrhau bod lefel uchel o staff yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg, i'w caniatáu i gyfarch a chydabod ar lafar ym mhob maes gweithgaredd.	Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth, Pennaeth Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Cyfarwyddiaeth	Medi 2014
Rhoi Gweithdrefn Recriwtio'r Mesur Iaith Gymraeg ar waith	Pennaeth Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Cyfarwyddiaeth	parhaus
Adran	Cyfathrebu	
Carreg filltir	Cyfrifol	Dyddiad targed
Rhoi proses gadarn ar waith ar gyfer cynnal argaeledd gwybodaeth yn ddwyieithog ar wefan y brifysgol	Pennaeth Cyfathrebu	Medi 2014
Datblygu maes adborth i gwsmeriaid ar y wefan yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Pennaeth Cyfathrebu	Mehefin 2014